

YSGOL PEN-Y-GARTH ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I RIENI 2017-18



Ysgol Pen-Y-Garth



Mae'n bleser gennyf gyflwyno, ar ran y Corff Llywodraethu, Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni. Fel Corff Llywodraethu, mae rhwymedigaeth arnom i ddarparu gwybodaeth benodol i chi parthed yr Ysgol, fel y pennir gan ddeddfwriaeth.

Cafodd yr Ysgol flwyddyn lwyddiannus arall ac mae hyn yn glod i waith caled ac ymrwymiad y disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid, staff a rhanddeiliaid yn y gymuned sy'n cefnogi'r Ysgol. Mae hyn yn cynnwys y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA), y mae ei gwaith parhaus yn sicrhau bod arian hollbwysig yn cael ei wario ar gyfarpar Ysgol ac eitemau sydd o fudd i'r disgyblion. Talodd y CRhA hefyd am ail-baentio maes parcio'r Ysgol ac ariannu'n rhannol ddatblygiad gwefan newydd yr Ysgol er mwyn gwella cyfathrebu gyda rhieni a'r gymuned. Heb y gefnogaeth barhaus hon ni fyddai'r Ysgol yn gallu cyflawni cymaint ag y mae'n ei wneud - diolch o galon.

Yn dilyn arolwg Estyn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn flaenorol, aeth yr Ysgol ymlaen i gyrraedd y categori uchaf (Gwyrdd) yn y System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion, gan ddangos parhad yn ein canlyniadau academaidd cryf a llwyddiannau mewn gweithgareddau allgyrsiol megis chwaraeon, dawns ac mewn Eisteddfodau.

Mae cyfnod ariannol heriol yn wynebu pob ysgol. Mae'r Bwrdd Llywodraethu yn parhau i gyfathrebu gyda Chyngor Bro Morgannwg parthed buddsoddi yn adeiladau newydd yr Ysgol, gan gynnwys to adeilad yr adran Babanod. Gwnaethom hefyd gynnal adolygiad er mwyn ailddiffinio ein hamcanion strategol (a'r ffordd orau i'w cyflawni) ac rydym wedi edrych o'r newydd ar ein his-bwyllgorau a'u grymuso er mwyn gwella sut rydym yn gwneud penderfyniadau a'n heffeithiolrwydd. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Ysgol ar weithrediad Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Byddwn yn parhau i weithio gyda a chefnogi'r staff er mwyn gwneud yn siŵr bod yr Ysgol yn parhau i fod yn amgylchedd hapus a diogel i bob disgybl gyrraedd ei lawn botensial - boed hynny'n academaidd, yn gerddorol, ar y maes chwaraeon neu mewn unrhyw faes arall. Rydym am i'r Ysgol fod yn esiampl a chwarae rhan flaenllaw mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol. Cafodd yr angerdd a'r egni a grëwyd yn ystod rhaglen Siarter laith eu cymeradwyo'n fawr gan yr arolygwyr achredu.

Rydym yn deall bod lle i wella, yn cynnwys parthed ein cyfathrebu a byddwn yn cefnogi ac yn herio staff i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni ac yr adeiladir ar fentrau priodol (megis y defnydd o feddylfryd twf).

Diolch am ddewis anfon eich plentyn i Ysgol Pen-y-Garth. Mae pob disgybl yr un mor bwysig i ni. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau parthed yr Ysgol neu'n teimlo y gallwch gynorthwyo i gefnogi'r Ysgol mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â'r Llywodraethwyr drwy'r Ysgol.

David Wilton, Cadeirydd



Gweledigaeth yr Ysgol

Ein Gweledigaethau a'n Gwerthoedd

Yn Ysgol Pen-y-Garth ein nod yw:-

Bod ein disgyblion yn frwdfrydig dros ein hiaith a'n traddodiadau mewn ethos Cymreig

Bod pawb yn mwynhau cydweithio mewn amgylchedd diogel

Ein bod yn dysgu bod yn onest ac yn hyderus er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir

Ein bod yn parchu ein gilydd a'r amgylchedd fel ein bod yn tyfu i fod yn ddinasyddion cyfrifol y dyfodol

Anelu bob amser at y safonau uchaf posibl gyda phob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial

Mae gweledigaeth yr Ysgol yn cynnwys pedwar diben craidd addysg fel yr amlinellir yn y cwricwlwm newydd i Gymru, sef bod ein plant yn:

Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog

Cyfranwyr mentrus a chreadigol

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus

Unigolion iach, hyderus



Mae 10 o werthoedd yr Ysgol yn sail i'n haddysg bersonol a chymdeithasol a'r rhain hefyd yw'r themâu ar gyfer ein gwasanaethau. Y gwerthoedd yw:

Parch, Gonestrwydd, Caredigrwydd, Dyfalbarhad, Dewrder, Hapusrwydd, Heddwch, Cyfeillgarwch a brwdfrydedd am bopeth Cymreig

Categoreiddio

Ym mis Ionawr 2018, gosodwyd yr Ysgol yn y categori uchaf, sef Gwyrdd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o sylwadau cadarnhaol:

Mae'r safonau cyrhaeddiad yn dda iawn

Mae gan yr Ysgol enw da cryf iawn mewn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn llwyddiannus

Mae gan yr Ysgol enw da iawn am godi cyraeddiadau bron yr holl ddisgyblion, yn cynnwys dysgwyr agored i niwed

Mae gan arweinwyr a staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n dda ac maent yn arddangos safonau proffesiynol uchel

Yn y profion cenedlaethol, perfformiad cryf ym mhob grŵp blwyddyn ar y sgôr cyfartalog

Mae rôl y llywodraethwyr wedi gwella'n sylweddol. Mae gan y Corff Llywodraethu nawr weledigaeth gref, strwythur clir i'w gyfarfodydd ac mae'n cyfathrebu'n well gyda'i holl randdeiliaid

Mae gwaith tîm da iawn yn sicrhau ethos Cymreig hapus, gofalgar a chryf, lle mae disgyblion yn datblygu fel dysgwyr hyderus

Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yn helpu i nodi'r ysgolion hynny yng Nghymru sydd angen y mwyaf o gefnogaeth. Asesir ysgolion ar eu perfformiad yn ogystal â'u gallu i wella. Mae Gwyrdd yn cynrychioli'r ysgolion sy'n perfformio orau.



Ysgol Pen-Y-Garth

Ein Corff Llywodraethu

Mae gan Gorff Llywodraethu Ysgol Pen-y-Garth gyfrifoldeb i oruchwyllo bod yr Ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol, gan weithredu o fewn y fframwaith a osodir gan ddeddfwriaeth ac y cedwir at bolisiâu'r Awdurdod Lleol (ALI) a Llywodraeth Cymru.

Er mai'r ALI yw cyflogwr y staff, mae gan y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth gyfrifoldebau ar wahân a phenodol am ddewis a rheoli'r staff. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw rheolaeth fewnol yr Ysgol.

Nod y Corff Llywodraethu yw bod pob disgybl yn cael profiad hapus a gwerth chweil o'r Ysgol a'u bod yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial.

Bydd y Corff Llywodraethu llawn yn cyfarfod ddwywaith y tymor a cheir hefyd nifer o is-bwyllgorau sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion penodol ac sy'n adrodd i'r Corff Llywodraethu llawn. Mae gan rai o'r is-bwyllgorau hyn gyfrifoldebau dirprwyedig.

Ffurfiwyd Pwyllgor Lles newydd i fynd i'r afael yn benodol â lles disgyblion a staff. Sefydlwyd Pwyllgor Cyfathrebu hefyd i weithio gyda'r Ysgol ar y wefan newydd.

Mae gan bob Llywodraethwr gysylltiad i ddosbarth a bydd yn cymryd rhan mewn o leiaf un sesiwn arsylwi yn y dosbarth yn ystod y flwyddyn academiaidd. Y ffocws allweddol ar gyfer yr arsylwadau hyn oedd ymgysylltiad disgyblion.

Ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd bydd gan y Llywodraethwyr gyfle i weld samplau o lyfrau pob dosbarth.

Mae'r polisiâu a gymeradwywyd eleni yn cynnwys Polisi Anghenion Gofal Iechyd, Polisi Gweinyddu Meddyginiaethau, Polisi Tâl, Polisi Cwynion, Polisi Diogelu, Polisi E-ddiogelwch, Diogelu Data a Chanllawiau Gwisg Ysgol.

Fel y soniwyd yn Rhagymadrodd y Cadeirydd, mae'r Llywodraethwyr wedi bod yn cyfathrebu â Chynghorwyr a Swyddogion Cyngor Bro Morgannwg parthed yr angen i adnewyddu to adeilad yr adran Babanod. Bydd y Corff Llywodraethu yn parhau i bwysu am ragor o gyllid yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes wedi cael ei addo.



Y Corff Llywodraethu Presennol

Enw	Math o Lywodraethwr	Maes Pwnc	Dosbarth
Mr David Wilton (Cadeirydd)	ALI	Technoleg Gwybodaeth	Blwyddyn 1
Mrs. Hannah Evans (Is-gadeirydd)	Rhiant – cyfrifoldeb penodol am Ddiogelu	Dyniaethau Diogelu	B4D
Mrs. Iona Edwards	Pennaeth	-	-
Mr Chris Franks	ALI – cyfrifoldeb penodol am lechyd a Diogelwch		B4R
Mr Rhodri Lewis	Rhiant	Addysg Gorfforol Cynghorau Ys- gol	Blwyddyn 5
Mrs. Ruth Leggett	Rhiant	Celfyddydau Mynegiannol	B3S
Mr Gareth Davies	Rhiant	Mathemateg a Rhifedd	Meithrin
Mr Dave Horgan	ALI	Technoleg Dylunio Cynghorau Ys- gol	B3L
Mrs. Margaret Evans	Cymunedol	CA2	Blwyddyn 6
Mrs. Anne Roberts	Cymunedol – cyfrifoldeb pe- nodol am Anghenion Dysgu Ychwanegol	Saesneg Cyfnod Sylfa- en	Blwyddyn 2
Mrs. Llinos Misra	Cymunedol	Cymraeg	Derbyn
Mr Stephen Prosser	Staff Addysgu	-	-
Mrs. Sian Cwyfan Hughes	Staff Ategol	-	-
Mr Ian Williams (penodwyd Ebrill 2018)	Cynrychiolydd Awdurdod Llai (MAR)		



Ysgol Pen-Y-Garth

Pwyllgor	Cwrdd
Pwyllgor Cyllid	O leiaf unwaith y tymor
Pwyllgor Cwricwlwm	O leiaf unwaith y tymor
Pwyllgor Safle ac Iechyd a Diogelwch	O leiaf unwaith y tymor
Pwyllgor Rheoli Perfformiad y Pennaeth	O leiaf unwaith y tymor
Pwyllgor Lles (sefydlwyd 2017-18)	O leiaf unwaith y tymor
Pwyllgor Cyfathrebu (sefydlwyd 2017-18)	O leiaf unwaith y tymor
Pwyllgor Disgyblu Disgyblion	Yn ôl y galw
Pwyllgor Diswyddo Staff	Yn ôl y galw
Pwyllgor Cwynion	Yn ôl y galw
Pwyllgor Apeliadau	Yn ôl y galw

Uwch Dîm Arwain

Pennaeth:	Mrs Iona Edwards
Dirprwy Bennaeth:	Mrs Sara Ryall
Cyfnod Allweddol 2 – Mathemateg ac Asesu	Mrs Louise Davies
Cyfnod Sylfaen, Dyniaethau, Addysgu a Dysgu	Mrs Cath Bliss
TG a Cymhwysedd Digidol	Mr Owain Jones
Siarter Iaith	Mrs Morwenna Evans



Blwyddyn Academaidd 2017- 2018

Athrawon Cyfnod Sylfaen	Athrawon Cyfnod Allweddol 2
Meithrin Mrs. Shuffley	Blwyddyn 3 Mrs Simmons Mrs LeRazavet
Derbyn Miss Jacks Miss Williams	Blwyddyn 4 Mrs. Davies/ Mrs. Wort Mrs. Richards
Blwyddyn 1 Miss Buckland Mrs. Smith Mrs Jones (o fis Ebrill 2018)	Blwyddyn 5 Mr Prosser Mrs. Ryall
Blwyddyn 2 Mrs. Bliss Miss Evans	Blwyddyn 6 Mr Jones Miss Vaughan

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles	Mrs. Sion
CPA	Mrs. Wort, Mrs Cwyfan-Hughes, Mrs Sion
Staff Cymorth	Mrs. Hillman, Mrs. Thomas, Mrs. Jeffreys, Mrs. Craven, Mrs. Karatas, Ms. DeClaire, Mrs. Morgan, Miss Lawday, Dr Cwyfan-Hughes, Mrs. Harries
Swyddog Gweinyddu Ysgol	Mrs. Blake
Goruchwylwyr Awr Ginio	Mrs. Miller, Mrs. Sing, Ms. DeClaire



Ysgol Pen-Y-Garth

Cynllun Gwella Ysgol ar gyfer 2017- 2018

Blaenoriaeth	Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni
Codi safon y Gymraeg yn yr ysgol a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth Cynnwys mwy o rieni mewn gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg gan godi proffil y Gymraeg trwy'r Ysgol gyfan	Cyflawnodd yr Ysgol ddyfarniad Efydd y Siarter Iaith. Pan wnaethom ail-gynnal yr holiadur defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ar ddiwedd y flwyddyn gwelwyd gwelliant ym mhob un o'r 14 categori, yn arbennig y defnydd o apiau Cymraeg, cynnydd mewn ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Cynhaliodd yr Ysgol Brosiect Brwydr y Bandiau. Roedd yn hynod lwyddiannus a bu eitem am y prosiect ar Radio Cymru Sylw yn Penarth Times – codi proffil yr Ysgol yn y gymuned.
2. Codi safonau mewn cymhwysedd digidol	Cynhyrchwyd polisi e-ddiogelwch Cydweithiwyd ag arweinwyr digidol eraill yn y clwstwr er mwyn cynllunio Arweinwyr digidol disgyblion yn chwarae rhan arweiniol mewn hyfforddi disgyblion a staff i ddefnyddio TG yn hyderus Diweddarau meddalwedd i fodloni gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol
3. Ymateb i ofyniad Proffil y Cyfnod Sylfaen	Addasodd staff y Cyfnod Sylfaen eu cynllunio er mwyn ymateb i'r newidiadau yn nisgwyliadau Proffil y Cyfnod Sylfaen. Gweithredodd yr Ysgol system newydd i fonitro cynnydd disgyblion unigol a defnyddiwyd dulliau addysgu wedi'u targedu i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformio Cyflawnodd 95% o'r disgyblion ddeilliannau 5+ mewn iaith a datblygiad mathemategol a 98% mewn datblygiad personol a chymdeithasol
4. Ymateb i ddata'r flwyddyn flaenorol (darllen, rhesymu a gwyddoniaeth)	Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 cyraeddodd 100% o'r disgyblion lefel 4+ (y lefel ddisgwyliedig ym flwyddyn 6) gyda dros hanner ohonynt yn cyrraedd lefel 5+ ar draws yr holl bynciau (gweler atodiad 2 ar gyfer crynodeb o'r asesiad).
5 Gwella llais y disgyblion	Cyfarfu holl bwyllgorau'r Ysgol o leiaf 4 gwaith bob tymor eleni a gwerthuswyd eu gwaith a'u heffaith yn nhymor yr haf. Rhoddodd bob pwyllgor gyflwyniad fideo byr yng nghyfarfod Llywodraethwyr olaf y flwyddyn.
6 Parhau i weithredu ac archwilio'r Cwricwlwm Newydd i Gymru	Bu staff yn gweithio mewn triadau i ddysgu am 12 egwyddor addysgeg y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Roedd hyn yn golygu arsylwi ar gymheiriaid a rhannu arfer da. Bu athrawon yn arbrofi gyda chynllunio gan ddefnyddio dull thematig a byddant yn parhau i addasu a gwella er mwyn cynnwys 4 diben y cwricwlwm yn 2018-19. Cyflwynodd yr Ysgol Feddylfryd Twf i'n disgyblion a'n rhieni a dechreuodd y staff ddefnyddio'r egwyddorion hyn mewn dysgu pob dydd

Presenoldeb

Ein targed o ran presenoldeb ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017-2018 oedd 96.5%. Y presenoldeb gwirioneddol oedd 95.7%.

Ein targed o ran presenoldeb ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018-2019 yw 96.5%.

Rydym yn monitro presenoldeb bob hanner tymor a chaiff hyn yn ei dro ei fonitro gan yr ALI.

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr Ysgol yn hollbwysig os yw plant am gyrraedd eu llawn botensial. Bydd gwyliau estynedig neu absenoldebau mynych yn faterion a gaiff eu hystyried gan yr ALI.

Mae gennym ganllawiau clir gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu i ni awdurdodi absenoldebau ar gyfer apwyntiadau meddygol, arholiadau allanol ac ati.

Mae presenoldeb yn arbennig o bwysig i ni yn Ysgol Pen-y-Garth a gofynnwn am eich cymorth a'ch cefnogaeth i sicrhau bod hyn yn parhau ar lefel resymol.

Cysylltiadau â'r Gymuned

Caiff y disgyblion nifer o gyfleoedd i fod yn rhan mewn digwyddiadau yng nghymuned yr Ysgol. Cymerodd grŵp o ddisgyblion ran mewn gweithdy gyda'r WNO yng Ngŵyl Gerdd Dinas Powys. Ymddangosodd côr yr Ysgol mewn Digwyddiad Elusennol Prostrate Cymru.

Perfformiodd disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yng Ngŵyl Fach y Fro.

Cymerodd y timau rygbi a phêl-rwyd ran yn nhwrnamaint St Joseph ynghyd ag ysgolion eraill y clwstwr a daethant yn ail yn y ddwy gystadleuaeth.

Perfformiodd y grwpiau dawns yng Nghyngerdd Rotari.

Ymddangosodd disgyblion ar Radio Cymru 2.

Arian a godwyd ar gyfer elusennau

Banc Bwyd 225kg o fwyd

Plant mewn Angen £418.55

Bore Coffi MacMillan £300

Apêl y Pabi £332.60

Gwisgwch Goch dros Gymru a Felindre £351.10

Apêl Cywion Felindre £455

Cyllid 2017-18

Derbyniwyd cyllid o £1,194,054 yn y flwyddyn ariannol hon. Gweler atodiad 1 am fanylion gwariant yr Ysgol



Ysgol Pen-Y-Garth



Llwyddiannau'r Ysgol

- Cyflawnodd yr Ysgol ddyfarniad Efydd y Siarter Iaith yn hawdd eleni. Cafwyd adborth rhagorol gan yr asesydd a chafodd yr Ysgol ei henwi fel esiampl o arfer da
- Cyrhaeddodd y parti dawnsio creadigol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai 2018 a chipio'r ail wobr
- Daeth y grŵp dawnsio disgo a'r parti deulais yn ail yn Eisteddfod Sir Caerdydd a'r Fro
- Daeth Grace Ingram yn drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
- Enillodd Cara McKlellan gystadleuaeth celf gan ennill taith iddi hi a gweddill disgyblion ei dosbarth i Faes Awyr Caerdydd
- Enillodd Evie Sing gystadleuaeth Heddlu De Cymru gan ennill taith iddi hi a gweddill ei dosbarth i bencadlys yr Heddlu
- Cymhwysodd 2 dîm ar gyfer cystadleuaeth Gala genedlaethol yr Urdd



Nifer ar y Gofrestr

	Medi 2016	Medi 2017	Medi 2018
Meithrin	47	34	48
Derbyn	49	41	44
Blwyddyn 1	44	48	46
Blwyddyn 2	49	45	47
Blwyddyn 3	60	47	43
Blwyddyn 4	54	61	47
Blwyddyn 5	52	55	60
Blwyddyn 6	47	50	54



Ysgol Pen-Y-Garth

Oriau'r Ysgol

Cyfnod Sylfaen		Cyfnod Allweddol 2	
9.00 - 10.30	Sesiwn 1	9.00 - 10.50	Sesiwn 1
10.30 - 10.45	Egwyl bore	10.50 - 11.05	Egwyl bore
10.45 - 11.45	Sesiwn 2	11.05 - 12.15	Sesiwn 2
11.45 - 12.45	Egwyl cinio	12.15-1.15	Egwyl cinio
12.45 - 2.00	Sesiwn 3	1.15 - 2.15	Sesiwn 3
2.00 - 2.15	Egwyl prynhawn	2.15 - 3.30	Sesiwn 4
2.15 - 3.30	Sesiwn 4	3.30	Diwedd y diwrnod ysgol
3.30	Diwedd y diwrnod ysgol	3.30 - 4.30	Clybiau wedi'r ysgol Llun - Iau

Gweithgareddau Allgyrsiol

Wedi'r ysgol ac yn ystod yr awr ginio bydd staff yn darparu ystod eang o glybiau y gall plant yr Adran Iau eu mynychu.

Rydym yn cynnig gweithgareddau Dawns, Côr, Pêl-rwyd, Aml-gamp, Rygbi, Gwyddbwyll, Clwb Radio, Darllen a Chlwb Cardiau.

Bydd aelodau'r clybiau Dawns, y Côr a chlybiau chwaraeon hefyd yn cystadlu mewn cystadlaethau yn lleol, sirol a chenedlaethol.

Bydd y Côr hefyd yn perfformio'n rheolaidd yn y gymuned mewn cartrefi preswyl a digwyddiadau codi arian e.e. Clwb Rotari a Prostrate Cancer Cymru.

Rydym yn ddiolchgar i un o'n rhieni, Enfys Emlyn, sy'n cynnal dosbarth dawnsio wythnosol ac sydd wedi cyfrannu'n fawr iawn at lwyddiant cenedlaethol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Toiledau

Ystyrir bod darpariaeth toiledau ar gyfer yr holl ddisgyblion yn dda.

Mae gan yr Ysgol bum bloc toiledau - Meithrin, Derbyn, Blynnyddoedd 1 a 2, Blynnyddoedd 3-5 a Blwyddyn 6 - cyfanswm o 25 toiled. Caiff y rhain eu glanhau gan Lanhawyr y Fro.



Ysgol Pen-Y-Garth

Mae'r Corff Llywodraethu yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyrraedd eu potensial mewn amgylchedd o gefnogaeth. Ffocws penodol yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf fydd:

- Sicrhau bod adnoddau'r Ysgol yn cael eu dyrannu'n effeithiol er mwyn cael y budd mwyaf.
- Gwneud gwelliannau pellach i les staff a disgyblion.
- Gwella adeiledd yr adeilad.
- Deall a gweithredu newidiadau i sut y darperir ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Sefydlu gwefan newydd a gwaith pellach i wella cyfathrebu'r Ysgol.
- Adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith er mwyn cyflawni statws Arian.



Vale of Glamorgan Council School Outturn Report 2017/18 Revenue Summary

Cost Centre:101304	Description:Ysgol Pen Y Garth Penarth	Period Name 2017/ P12	Budget Name:VOG 17/18 RE
	Level3	Annual Budget	Total Actual
CONT. TO FUNDS	CONT TO GENERAL RESERVE	0.00	0.00
		0.00	0.00
CUSTOMER RECEIPTS	CHARGE FOR SERVICE	0.00	-1,420.00
	DONATIONS	0.00	-31,510.03
	RENTAL INCOME	-20,000.00	-15,823.75
	SALE OF PRODUCTS	0.00	-67,131.05
	SECONDMENT INCOME	0.00	0.00
		-20,000.00	-115,692.83
EMPLOYEES	GRANT EMPLOYEES	132,270.00	132,991.14
	INDIRECT EMPLOYEES EXPS	14,985.00	14,381.00
	NON TEACHING EMPLOYEES	121,204.00	117,259.58
	OTHER DIRECT EMPLOYEES	0.00	0.00
	SEG WEG EIG EMPLOYEES	0.00	0.00
	TEACHING EMPLOYEES	875,970.00	882,101.31
		1,144,437.00	1,148,733.03
GOVERNMENT GRANT	OTHER GOVERNMENT GRANTS	0.00	0.00
	WG GRANTS	-136,890.00	-153,143.00
		-136,890.00	-153,143.00
INTERNAL RECHARGES EXPEND	INTERNAL RECHARGES EXPEND	75,358.00	144,959.68
		75,358.00	144,959.68
INTERNAL RECHARGES INCOME	INTERNAL RECHARGES INCOME	-5,147.00	-5,769.49
		-5,147.00	-5,769.49
INTRA DEPARTMENTAL RECHARGE	SEG WEG EIG INCOME	0.00	0.00
		0.00	0.00
OTHER GRANTS	INCOME FROM OTHER LAs/HAs	0.00	0.00
		0.00	0.00
PREMISES	CLEANING AND DOMESTIC SUPPLIES	29,443.00	29,354.01
	ENERGY	18,063.00	18,811.42
	GROUPS MAINTENANCE	2,050.00	1,858.14
	RATES	31,936.00	31,936.00
	RENTS	0.00	0.00
	REPAIRS & MAINT OF BUILDING	9,812.00	8,013.49
	WATER SERVICES	8,801.00	7,321.98
		99,725.00	97,295.04
SUPPLIES AND SERVICES	CATERING	449.00	500.35
	COMMS AND COMPUTING	1,153.00	7,817.82
	EQUIP, FURNITURE & MATERIALS	11,090.00	34,941.18
	EXPENSES	0.00	0.00
	GRANTS & SUBSCRIPTIONS	4,710.00	4,728.62
	MISC EXPENSES	11,276.00	-409.00
	PRINTING STATIONERY & OFFICE EXPS	7,834.00	7,614.47
	SEG WEG EIG SUPPLIES AND SERVICES	0.00	0.00
	SERVICES	61.00	505.26
		36,573.00	55,707.50
TRANSFER FROM SCHOOL INVESTMENTS	SCHOOL INVESTMENTS REV	0.00	0.00
		0.00	0.00
TRANSPORT	CAR ALLOWANCES	0.00	0.00
	SEG WEG EIG TRAVEL EXPENSES	0.00	0.00
		0.00	0.00
		1,194,054.00	1,170,089.93

Cyfnod Sylfaen Deilliannau 2018

Ysgol a Chenedlaethol

Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd pob canlyniad.

		Z	S	G	N	D	W	1	2	3	4	5	6+	54
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Saesneg (LCE)	Ysgol	-	-	-	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cenedlaethol	-	-	-	0.1	0.4	0.4	0.2	0.5	0.8	0.8	50.0	39.7	38.1
Sgiliau Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu yn Gymraeg (LCW)	Ysgol	-	-	-	0	0	0	0	0	0	5	61	34	95
	Cenedlaethol	-	-	-	-	0.2	0.1	0.1	0.2	0.5	7.7	52.3	33.1	50.9
Datblygiad Mathemategol (MDT)	Ysgol	-	-	-	0	0	0	0	0	0	5	61	34	95
	Cenedlaethol	-	-	-	0.1	0.4	0.3	0.2	0.3	1.0	7.2	51.6	33.7	50.9
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2	41	57	98
	Cenedlaethol	-	-	-	0.1	0.4	0.3	0.2	0.4	0.8	3.1	33.3	61.3	84.7

Roedd 44 disgyblion yn y grwp.

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen	Ysgol	93
	Cenedlaethol	57.3

Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adranau 113 - 116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ohonynt.

Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heb law datgymhwyso.

Mae W yn sefyll am y disgyblion sy'n gweithio at ddelliant 1 ond nad ydynt eto wedi cyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer lefel 1.

Y disgyblion ym y bydd mwyafnif o ddisgyblion 7 oed yn cyrraedd delliant 5.

Mae'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd delliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

Crynodeb o ganlyniadau Asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol disgyblion yn yr ysgol (2018) ac yn genedlaethol (2017) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 fel canran o'r rhai oedd yn gymwys i'w hasesu.

		N	D	NCO 1, 2, & 3	1	2	3	4	5	6+	4+
Saesneg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	34	62	4	100
	Cenedlaethol	0.1	0.4	-	0.4	1.4	6.2	45.4	43.0	1.7	91.1
Llafaredd	Ysgol	0	0	0	0	0	0	34	58	8	100
	Cenedlaethol	0.1	0.4	-	0.4	1.1	6.2	45.4	44.0	2.0	91.4
Darllen	Ysgol	0	0	0	0	0	0	30	66	4	100
	Cenedlaethol	0.1	0.4	-	0.4	1.4	6.8	45.0	43.6	1.9	90.5
Ysgrifennu	Ysgol	0	0	0	0	0	0	48	48	4	100
	Cenedlaethol	0.1	0.4	-	0.5	1.0	10.3	49.9	35.2	1.4	88.8

Cymraeg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	40	56	4	100
	Cenedlaethol	0.1	0.1	-	0.3	1.1	6.8	50.1	30.7	1.8	91.6
Llafaredd	Ysgol	0	0	0	0	0	0	38	58	4	100
	Cenedlaethol	0.1	0.1	-	0.3	0.9	6.8	48.7	41.6	2.0	92.3
Darllen	Ysgol	0	0	0	0	0	0	38	58	4	100
	Cenedlaethol	0.1	0.1	-	0.3	1.1	7.6	48.3	40.6	1.9	90.8
Ysgrifennu	Ysgol	0	0	0	0	0	0	46	54	0	100
	Cenedlaethol	0.1	0.1	-	0.4	1.7	11.0	53.1	32.3	1.3	88.8

Mathemateg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	32	60	18	100
	Cenedlaethol	0.1	0.4	-	0.4	1.3	6.0	44.8	45.3	1.8	91.6

Gwyddoniaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	42	58	0	100
	Cenedlaethol	0.1	0.4	-	0.3	1.1	5.5	45.8	46.2	0.2	92.2

Dangosydd Pwnc Craidd	Ysgol	100
	Cenedlaethol	89.5

Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgynhywysu o dan Adranau 113 - 116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ofonynt.

Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddiylunio arni rosynau heb law datgynhywysu. Mae Ddilemmau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1, 2 a 3 yn disgrifio cyfnewid o dan Lefel 1.

Y disgwyl yw y bydd mwyafrif o ddisgyblion 11 oed yn cyrraedd lefel 4.

Mae'r Dangosydd Pwnc Craidd yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (ieith gymraeg), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.